

Pennaeth Strategol
Bethan Emyr Jones

✉ BethanEmyrJones@gwynedd.gov.uk

☎ 01678 520278



Ysgol Bro Tegid

BALA

Gwynedd

LL23 7BN

Dydd Iau, Mehefin 8^{ed}, 2017

Annwyl Rieni,

Dyma ni ar gychwyn yr hanner tymor olaf cyn gwyliau'r Haf. Mae'n siwr o fod yn dymor prysur fel arfer, felly dyma restr o ddigwyddiadau i chi gael eu nodi ar eich calendrau!

Dyddiadau Pwysig

Mehefin 8	Cwpan Pêl-droed yr Urdd 5yh
Mehefin 12	Rhieni Bl.6 – Cyfarfod Delyth Humphreys, Ysgol y Berwyn Yn Ysgol Bro Tegid
Mehefin 14	Trip addysgol i'r Ysgwrn – Trawsfynydd, Cartref Hedd Wyn – Bl.4,5 a 6 Prynawn yn unig
Mehefin 15	Athletau Rhanbarth – Harlech 5yh
Gorffennaf 4	Trip Ysgol Gyfan i Eisteddfod Llangollen – Bocs bwyd i bawb. Mwy o wybodaeth i ddilyn
Gorffennaf 4	Athletau Talaith – Parc Eirias 6yh
Gorffennaf 5 a 6	Diwrnod Blasu Bl.6 – Ysgol y Berwyn
Gorffennaf 6	Plant meithrin i mewn am y diwrnod
Dyddiad i'w bennu	Barbaciw a Mabolgampau'r ysgol
Gorffennaf 21	Cau am wyliau'r Haf

Eisteddfod Genedlaethol Penybont ar Ogwr

Diolch yn fawr iawn i'r holl ddisgyblion a aeth i'r Eisteddfod yn ystod eu gwyliau hanner tymor i gystadlu ar ran yr ysgol, ac yn arbennig i chi fel rhieni a gofalwyr am eu cludo yno a gwneud eich trefniadau aros eich hunain. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn. Diolch arbennig Anti Gwyneth am roi o'i hamser i'w hyfforddi ac i Mrs Nia Roberts a Mr Billy Thompson am gyfeilio.

Celf a Chrefft – Roedd hi'n braf iawn gweld gwaith tecstilïau Cadi Llywela a phyped Jac yn y babell Celf a Chrefft ar faes yr Eisteddfod. Llongyfarchiadau i'r ddau ar gael yr ail wobwr yn y Genedlaethol.

Prynhawn o hwyl yn Bro Tegid

Llwyddwyd i godi swm sylweddol o £320.00 tuag at gronfa Catrin Williams- Ellis a diolch arbennig i'r rhai a fu'n paratoi cacennau ar gyfer y diwrnod. Cawsom brynhawn hwyliog iawn a'r plant wrth eu boddau yn cael taflu sbwnj gwlyb ar yr athrawon!! Lluniau gwerth i'w gweld ar wefan yr ysgol!

Athletau Cylch Penllyn

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yn yr Athletau ar Fai 19^{eg}. Bydd rhai yn mynd ymlaen i gystadlu yn Athletau Rhanbarth yn Ysgol Ardudwy, Harlech ar nos Iau, 15^{fed} o Fehefin am 5yp. (Mwy o fanylion i ddilyn) Fe fyddwch yn gyfrifol am deithio yno ac adre' eich hunain – diolch o flaen llaw.

Cystadleuath Pêl Droed yr Urdd (Merched)

Nos Fawrth 6ed o Fehefin daeth tîm peldroed merchedyr ysgol yn fuddugol yn y gystadleuaeth yma ar gae 3G Y Bala. Llongyfarchiadau i Erin Fflur, Esme, Ffion, Cara, Mari Elen, Saran a Lilley am chwarae'n wych. Yn ogystal ag ennill y gwpan byddant yn cael cit newydd i'r ysgol.

Gyda diolch,

Mrs Sara Morris